1. CYFLWYNIAD

Un o bedwar prif amcan CGBLl Sir Gaerfyrddin yw cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd cadw a gwella bioamrywiaeth y sir.

Er bod llawer o bobl yn gyfarwydd â'r termau "bywyd gwyllt" ac "amrywiaeth", mae "bioamrywiaeth" yn air cymharol newydd nad yw wastad yn cael ei ddeall, ac ar wahân i'r rhywogaethau adnabyddus sydd mewn perygl, gall yr achos o blaid gwarchod bioamrywiaeth fod yn anodd o hyd i'w gyfleu. Fodd bynnag, cafodd y term ei fabwysiadu'n swyddogol, ac mae'n cael ei ddefnyddio fwyfwy. Bellach mae bioamrywiaeth yn ymddangos yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 o'r cwricwlwm cenedlaethol, yn ogystal ag ym meysydd llafur Safon Uwch a Safon Uwch Atodol, Mae bioamrywiaeth yn cael ei gydnabod fel dangosydd allweddol ar gyfer cynaladwyedd, ond heb lawer o gymorth cyhoeddus mae'n annhebygol y bydd mesurau cadwraeth bioamrywiaeth yn cael y flaenoriaeth a'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer cyflawni targedau. Felly, ystyrir bod cynyddu ymwybyddiaeth yn rhan hanfodol o'r broses CGBLl.

Mae codi lefel yr ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth yn fater lleol ac yn fater cenedlaethol (trwy'r cyfryngau, trwy gwricwla ysgolion, a thrwy ymgyrchoedd sefydliadau cadwraeth cenedlaethol ac asiantaethau'r Llywodraeth). Yr un modd â chynlluniau gweithredu bioamrywiaeth, gall ymdrechion cenedlaethol fethu heb gymorth pobl yn gyffredinol - gosod bioamrywiaeth mewn cyd-destun lleol.

Mae'r bartneriaeth o'r farn bod cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth cyfoethog y sir yn hanfodol er mwyn ysgogi pobl i gyfranogi'n weithredol yn ei gadwraeth a gwelliant.

* *Fel rhan o'r broses hon, mae'n bwysig ystyried yr hyn a olygir pan ddywedir cynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth oherwydd defnyddiwn yr ymadrodd mewn sawl ffordd. Gallai olygu cynyddu ymwybyddiaeth o:*
  - *beth yw bioamrywiaeth,*
  - *elfennau'r bioamrywiaeth hwnnw - y rhywogaethau a'r cynefinoedd unigol sydd gennym yn Sir Gaerfyrddin: pam y'u ceir mewn mannau eraill ond nid ym mhobman - a sut yr ydym yn mesur ac yn monitro hynny,*
  - *pwysigrwydd y bioamrywiaeth hwn i'n bywydau ac yn ei rhinwedd ei hun,*
  - *y ffaith fod bioamrywiaeth yn rhywbeth sy'n newid yn unol â phrosesau olyniaeth naturiol, newidiadau daearegol a hinsawdd yn ogystal â dylanwad pobl,*
  - *sut ydym yn effeithio arno a sut y gallwn ei gadw.*

* *Un o nodau canolog y CGBLlau yw cynyddu **dealltwriaeth leol** a **chefnogaeth i fioamrywiaeth**. Mae hyn yn golygu cyfranogiad gan sectorau allweddol cymdeithas: tirfeddianwyr a rheolwyr tir, pob lefel o lywodraeth, busnes a diwydiant, addysg ac eraill sy'n darparu gwasanaethau, y cyfryngau a phobl ifanc a chymunedau lleol.*
* *Yn aml, y ffordd orau o gyfleu negesau yw trwy gyfeirio at enghreifftiau lleol a phrofiad personol, a gall taw gweithredu lleol yw'r ffordd orau o gynyddu ymwybyddiaeth yn ogystal â chyflawni targedau CGBLl.*
* *Mae cyfranogiad yn y broses fioamrywiaeth yn bosibl ar y lefel leol, a bydd y cyfryw gyfranogiad yn golygu manteision gwirioneddol, sy'n effeithio ar fywydau pobl ac yn eu newid. Rhan allweddol o gynyddu ymwybyddiaeth yw trafod beth yn union yw'r manteision hyn.*
* *Gall gwybodaeth pobl leol am yr ardal fod yn bwysig o ran dadlennu ei bioamrywiaeth. Bydd defnyddio arbenigedd a brwdfrydedd y gymuned yn help i gynyddu ein cofnodion lleol ar*

1. INTRODUCTION

One of the four main aims of the Carmarthenshire LBAP is to raise public awareness of the importance of conserving and enhancing the county's biodiversity.

While many people are familiar with the terms "wildlife" and "diversity", "biodiversity" is a relatively new word not always widely understood, and except for the well-known endangered species, the case for the conservation of biodiversity can still be difficult to convey. However, the term has been adopted at an official level, and is becoming more widely used. Biodiversity does now appear in key stages 3 and 4 of the national curriculum, as well as in the AS and A level syllabus. Biodiversity is recognised as a key indicator for sustainability, but without a high level of public support biodiversity conservation measures are unlikely to receive the priority and resources necessary if targets are to be achieved. Raising awareness is therefore seen as a critical part of the LBAP process.

Raising the level of awareness of biodiversity is an issue at both a national (through the media, via school curricula, and by campaigns of national conservation organisations and Government agencies), and a local level. As with biodiversity action planning, national efforts may fail without "grassroots" activity as well - putting biodiversity into a local context.

The partnership believes that raising public awareness of the county's rich biodiversity is essential if people are to be encouraged to become actively involved in its conservation and enhancement.

* As part of this process it is important to think about what we mean when we talk of raising awareness of biodiversity because we use the phrase in a number of ways. It could be raising awareness of:
  - what biodiversity is,
  - the elements of that biodiversity - the individual species and habitats that we have in Carmarthenshire: why they are elsewhere but not everywhere - and how we measure and monitor it.
  - the importance of this biodiversity to our lives and in its own right,
  - the fact that biodiversity is something that changes with processes of natural succession, geological and climatic change as well as the influence of people,
  - how we impact on it and can conserve it.

* A central aim of LBAPs is to increase **local understanding** and **support for biodiversity**. This involves key sectors of society: landowners and land managers, all levels of government, business and industry, education and other service providers, media and young people and local communities.
* Messages are often best conveyed with reference to local examples and personal experience, and local action can be the best way of increasing awareness as well as reaching LBAP targets.
* Participation in the biodiversity process is achievable at the local level, and such involvement will have real benefits, which actually impacts on and changes people's lives. A key part of raising awareness is discussing just what these benefits are.
* Local people's knowledge of the area can provide an important insight into its biodiversity. Utilising the expertise and enthusiasm of the community will help increase our local records for the area and increase the information about species and habitats. It may also identify species and habitats important to local communities as well as the habitats and species recognised

gyfer yr ardal ac yn rhoi mwy o wybodaeth am rywogaethau a chynefinoedd. Gall hefyd adnabod rhywogaethau a chynefinoedd sy'n bwysig i gymunedau lleol yn ogystal â'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a ystyrir yn bwysig ar lefel leol.

* *Mae'n bwysig i bobl sylweddoli ein bod yn gallu dylanwadu mewn ffordd bositif yn ogystal â negyddol ar fioamrywiaeth a bod rhai o'r cynefinoedd mwyaf gwerthfawr, e.e. gweirgloddiau, yn ganlyniad i ymyriad dynol.*
* *Bydd gweithredu'r CGBLl hwn yn llwyddiannus yn dibynnu ar ddealltwriaeth eang, o grwpiau dylanwadol i'r unigolyn, a chau'r bwlch rhwng gwybodaeth a gweithredu, ac efallai newid y ffordd rydym yn gweithredu.*

2. Y FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR YMWYBYDDIAETH GYHOEDDUS O FIOAMRYWIAETH AR HYN O BRYD

Mae rhyngweithiad pobl a'r amgylchedd naturiol yn gymhleth, yr un fath â'n dealltwriaeth o'r rhan yr ydym yn ei chwarae fel pobl oddi mewn i ecosystemau, ac wrth wella a chadw'r bioamrywiaeth sydd o'n hamgylch. Ar y naill law ceir tueddiadau modern a allai wneud i bobl deimlo fod ganddynt lai o gyfranogiad a dealltwriaeth ynghylch eu hamgylchedd naturiol lleol, a'i berthynas â'r amgylchedd ehangach, yn genedlaethol a rhyngwladol:

* *mae pobl o bob oed ond efallai pobl ifanc yn enwedig, yn treulio mwy o amser yn hamddena, o flaen y teledu a chyfrifiaduron ac mewn gweithgareddau wedi'u trefnu, chwaraeon a chlybiau, gan dreulio llai o amser yn gwneud gweithgareddau hamdden anffurfiol yn yr awyr agored;*
* *mae pryderon am ddiogelwch, yn wirioneddol ac yn ymddangosiadol, yn golygu bod plant yn treulio llai o amser y dyddiau hyn yn ymweld â, ac yn chwarae yn, eu hamgylchedd naturiol, e.e. coedydd, caeau, y traeth - ac mae hyn yn effeithio ar blant yn y cartref ac yn yr ysgol;*
* *tra bo mwy o bobl yn dymuno ymweld â chefn gwlad a byw i ffwrdd o ganol dinasoedd, yn aml mae hyn ar draul ein cynefinoedd lled-naturiol sy'n cael eu colli yn ystod gwaith datblygu - adeiladu ffyrdd, tai, a datblygiadau ar gyrion trefi;*
* *dros flynyddoedd lawer lluniwyd polisïau i leihau costau cynhyrchu bwyd, gan hybu effeithlonrwydd, a hynny ambell waith ar draul ein cynefinoedd lled-naturiol ynghyd â'r rhywogaethau sy'n dibynnu arnynt.*

Fodd bynnag, er bod y teledu, y radio a'r wasg yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar faterion amgylcheddol ar lefel fyd-eang ac ar fywyd gwyllt ecsotig, megis colli coedwigoedd glaw trofannol a'r bygythiadau i'r iâ pegynol, yn hytrach nag ar faterion sy'n fwy perthnasol i fioamrywiaeth yn lleol, yn gyffredinol ceir cymaint o sôn am yr amgylchedd yn y cyfryngau fel ei bod yn anochel fod rhai pobl yn fwy gwybodus nag erioed o'r blaen. ***Yr her yw creu'r cysylltiad rhwng yr wybodaeth am fioamrywiaeth a gwneud rhywbeth yn ei gylch;*** *mae garddio bywyd gwyllt yn enghraifft o faes lle mae'r cyfryngau'n helpu i gynyddu ymwybyddiaeth.*

Ymhlith ffactorau eraill a all fod yn helpu i wella ein dealltwriaeth o fioamrywiaeth mae:

* *rhoi mwy o bwyslais ar iechyd a lles, a gwerth gweithgareddau yn yr awyr agored - cerdded, seiclo, etc. sy'n golygu bod pobl yn mynd allan o'u cartrefi ac yn cydymweithio â'r amgylchedd naturiol. Mae hefyd yn golygu cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth;*
* *mae bioamrywiaeth a chadwraeth yn dechrau ymddangos yn y cwricwlwm cenedlaethol, ac yn cael sylw trwy fentrau megis Eco-ysgolion;*
* *mae cynnydd yn nifer y cyhoedd sy'n aelodau o sefydliadau cadwraethol, e.e. CFGA, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Cymdeithasau Byd Natur, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YAG), yn awgrymu bod mwy o bryder am yr amgylchedd naturiol;*

as being important at a local level.

* It is important for people to realise that we have positive as well as negative impacts on biodiversity and that some of our most precious habitats, e.g. hay meadows, are the result of human intervention.
* Successful implementation of this LBAP will depend on widespread understanding, from influential groups down to the individual and in bridging the gap between knowledge and action, knowledge and involvement, and possibly changing how we do things.

2. CURRENT FACTORS AFFECTING PUBLIC AWARENESS OF BIODIVERSITY

The interaction of people and the natural environment is complex, as is our understanding of the role we play as humans within ecosystems, and in enhancing and conserving the biodiversity we find around us. On the one hand there are modern trends that could lead people to feeling less involved with, and less knowledgeable of their local natural environment and its place in the wider environment, both nationally and internationally:

* increasing amounts of leisure time spent by all ages, but perhaps particularly young people, in front of the television and computers and at organised activities, sports and clubs, with less time spent outdoors on informal recreation;
* concerns for safety, both real and perceived, mean that children spend less time today visiting and playing in their natural environment, e.g. wood, fields, beach - this affects children both at home and at school;
* while more people wish to visit the countryside and live away from city centres, this is often at the expense of our semi-natural habitats which are lost as development takes place - road building, housing, and out of town developments;
* agricultural policies have been designed over many years to keep down the cost of food production, with a drive for efficiency, sometimes at the expense of our semi-natural habitats together with the species they support.

However, although television, radio and the press tend to focus more on environmental issues at a global level and exotic wildlife, such as the loss of tropical rain forests and threats to polar ice caps, rather than issues more relevant to biodiversity at a local level, overall there is so much talk of the environment in the media some people must be better informed than ever before. **The challenge is to make the connection between the knowledge of biodiversity and doing something about it**, wildlife gardening being an example of an area where the media is helping to raise awareness.

Other factors that may be improving our understanding of biodiversity include:

* increasing emphasis on health and well being, and the value of outdoor activities - walking, cycling, etc. all of which involve people in being out of doors and interacting with the natural environment, and which also provide opportunities for raising awareness of biodiversity;
* biodiversity and conservation are beginning to appear in the national curriculum, and are addressed through initiatives such as Eco-Schools;
* increasing public membership of conservation organisations, e.g. RSPB, Wildfowl and Wetlands Trust (WWT), Wildlife Trusts, National Trust, suggests a growth in concern for the natural environment;
* a new emphasis on green and sustainable tourism aimed at developing an interest in the natural world and raising awareness of biodiversity, while conserving natural resources;
* a continuing development and implementation of environmental

* *mae pwyslais newydd ar dwristiaeth werdd a chynaladwy wedi'i anelu at ddatblygu diddordeb yn y byd naturiol a chynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth, a chadw adnoddau naturiol ar yr un pryd;*
* *datblygu a gweithredu deddfwriaeth amgylcheddol yn barhaus yn genedlaethol ac ar lefel Ewropeaidd - Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, deddfwriaeth Rhywogaethau Ewropeaidd Dan Warchodaeth (gweler Atodiad 1 am fanylion pellach).*

3. Y CAMAU GWEITHREDU AR HYN O BRYD YN SIR GAERFYRDDIN

3.1 Partneriaeth CGBLl Sir Gaerfyrddin

* *Mae cynyddu ymwybyddiaeth a chael cyfranogiad yn rhan hollbwysig o'r broses CGBLl leol, ac mae'n un o nodweddion holl gynlluniau gweithredu cynefinoedd a rhywogaethau.*
* *Mae paneli deongliadol yn cael eu gosod mewn amryw o safleoedd er mwyn rhoi gwybodaeth am fioamrywiaeth.*
* *Cafodd taflen i gynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth y sir ei chynhyrchu gan y bartneriaeth, ynghyd â cherdyn post a thaflenni am wrychoedd a'u rheolaeth.*
* *Rhoddir cyflwyniadau rheolaidd i grwpiau megis Cynghorwyr Sir, Fforymau Ardal, Grwpiau Garddio, Cymdeithas Tyddynwyr Dyfed.*
* *Sefydlwyd cronfa ddata addysg gadwraethol ar gyfer pob ysgol, ac mae hon ar gael ar fewnrwyd yr ysgolion er mwyn hybu'r llu o gyfleoedd lleol ar gyfer addysg amgylcheddol.*
* *Crëwyd llwybr bioamrywiaeth gan Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir ym Mhenclacwydd. Nod y llwybr hwn yw cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth a darparu gwell dealltwriaeth ynghylch bioamrywiaeth y safle a sut y mae wedi newid dros amser.*
* *Mae datganiadau newyddion yn anelu at gynyddu ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau a materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn y sir.*

3.2 Grwpiau cadwraeth unigol

* *Bydd sefydliadau cadwraeth lleol, sydd â chadwraeth bioamrywiaeth ymhlith eu hamcanion allweddol, yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth a chymell gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn gwaith cadwraeth, e.e. Parciau Gwledig, Gwarchodwyr Cefn Gwlad, YAP [Ymddiriedolaeth Adareg Prydain], YG [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol], CFGA, YAG, YNDGC [Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru]*
* *Mae canolfan YNDGC wedi'i lleoli yng Nghilgerran, Sir Benfro, ond mae hefyd yn gwasanaethu poblogaeth Sir Gaerfyrddin. Yn ogystal, mae ganddi warchodfeydd ledled y sir.*
* *Canolfan Gwlyptiroedd Cenedlaethol Cymru ym Mhenclacwydd, lle mae canolfan YAG.*
* *Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Mharc Dinefwr a Phumsaint*
* *Gwarchodfa CFGA ger Rhandir-mwyn, i'r gogledd o Lanymddyfri.*
* *Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne, a agorwyd yn 2000. Yr ardd hon oedd cyfraniad Cymru tuag at yr Agenda Ryngwladol ar gyfer Gerddi Botaneg. Mae'n gwarchod treftadaeth planhigion Cymru yn ogystal â chynnal rhaglen ryngwladol o ran gwarchod planhigion. Mae'r Ardd ar fin ymddatblygu yn ganolfan hyfforddi bwysig ar gyfer meithrin sgiliau a throsglwyddo gwybodaeth ynghylch cyfundrefneg planhigion a rheolau dosbarthu, ac ar gyfer cyflwyno'r sgiliau sydd eu hangen i fonitro bioamrywiaeth, ac i ymgymryd â'r gwaith ymchwil angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniadau rheoli o ran cadwraeth.*
* *Mae gan grwpiau bywyd gwyllt lleol yn yr ardal gysylltiadau â'r bartneriaeth Fioamrywiaeth, ac mae pob un yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth, e.e. Naturiaethwyr Llanelli, sef adran leol o'r Gymdeithas Byd Natur.*
* *Grwpiau gwarchod (WATCH) - mae'r grwpiau amgylcheddol hyn yn cael eu cynnal ar gyfer pobl ifanc trwy'r Cymdeithasau Byd Natur lleol. Yn Sir Gaerfyrddin cânt eu cynnal o Barc Gwledig Gelli Aur.*

legislation at a national and European level - CROW Act 2000, European Protected Species legislation (see Appendix 1 for further details).

3. CURRENT ACTION IN CARMARTHENSHIRE

3.1 Carmarthenshire LBAP Partnership

* Raising awareness and involvement is an integral part of the local LBAP process, and features in all habitat and species action plans.
* Interpretative panels are being put up at various sites to inform about biodiversity.
* A leaflet raising awareness of the county's biodiversity has been produced by the partnership, as well as a verge postcard and leaflets on hedgerows and their management.
* Presentations are regularly given to interested groups, e.g. County Councillors, Area Fora, Gardening Groups, Dyfed Small Holders Association.
* An environmental education database has been set up for all schools, available on the schools intranet to promote the many local opportunities for environmental education.
* A biodiversity trail has been established at the WWT at Penclacwydd. This trails aims to raise the public's awareness about biodiversity and provide a greater understanding of the biodiversity of the site and how it has changed over time.
* Press releases aim to raise awareness about events and issues on biodiversity within the county.

3.2 Individual conservation groups

* Local conservation organisations, which have the conservation of biodiversity as one of their key objectives, work to raise awareness and encourage volunteers to get involved in conservation work, e.g. Country Parks, BTCV, BTO, NT, RSPB, WWT, WTSWW.
* Wildlife Trust for South and West Wales has its centre at Cilgerran, Pembrokeshire, but this also serves the population of Carmarthenshire. It also has reserves throughout the county.
* National Wetlands Centre Wales at Penclacwydd, where the WWT has its centre.
* National Trust at Dinefwr Park and Pumsaint
* RSPB's reserve near Rhandirmwyn, north of Llandovery.
* National Botanic Garden of wales at Llanarthne, opened in 2000 as Wales' contribution to the International Agenda for Botanic Gardens, engaged in the conservation of Wales' plant heritage as well as engaging in an international programme for plant conservation. The Garden is set to become a major training resource for developing knowledge and skills about plant systematics and taxonomy, the job skills needed to monitor biodiversity and undertaking the research needed for making conservation management decisions.
* Local wildlife groups in the area have links with the Biodiversity partnership, and all help to raise awareness about biodiversity, e.g. Llanelli Naturalists, local section of the Wildlife Trust.
* WATCH groups - these environmental groups are run for young people through the local Wildlife Trusts. In Carmarthenshire they are run from Gelli Aur Country Park.

3.3 Working with schools and colleges:

* Seminars organised by the partnership on biodiversity have been held for sixth formers - it is intended that they be a regular event to raise awareness of the county's biodiversity and the issues affecting it.
* Seventy-three schools (to date) have registered as Eco Schools, one aspect of this project being to look at the management of school grounds.
* Several partners run educational programmes and these are detailed in an environmental education database for schools that has been produced, listing opportunities for environmental field

3.3 Gweithio gydag ysgolion a cholegau:

* *Cynhaliwyd seminarau gan y bartneriaeth fioamrywiaeth ar gyfer disgyblion chweched dosbarth - y bwriad yw gwneud hyn yn ddigwyddiad rheolaidd i gynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth y sir a'r materion sy'n effeithio arno.*
* *Cofrestrwyd 73 o ysgolion yn Eco-ysgolion hyd yn hyn, ac un agwedd ar y prosiect hwn yw archwilio sut mae tiroedd ysgolion yn cael eu rheoli.*
* *Mae sawl partner yn cynnal rhaglenni addysgol a cheir y manylion am y rhain mewn cronfa ddata addysg gadwraethol ar gyfer ysgolion a gynhyrchwyd trwy restru cyfleoedd am ymweliadau-maes cadwraethol ac addysg gadwraethol yn y sir.*
* *Mae Coleg y Drindod, Caerfyrddin, yn cynnig graddau mewn astudiaethau amgylcheddol sy'n ystyried bioamrywiaeth yn elfen hanfodol, a gradd MSc mewn Addysg Amgylcheddol y mae partner-sefydliadau yn cyfrannu ati ar ffurf arbenigedd addysgu.*
* *Mae'r Ardd Fotaneg Genedlaethol yn cynnal cyrsiau gan Brifysgol Abertawe am Fioamrywiaeth a chyfundrefneg planhigion. Mae'r credydau yn cyfrif tuag at Dystysgrifau Addysg Uwch.*
* *Mae Fforestwr yn codi ymwybyddiaeth o reolaeth goetir gynaladwy trwy ddefnyddio adnoddau coetir adnewyddadwy ar gyfer dysgu sut i gynhyrchu sercol, gwaith helyg, etc.*
* *Mae Ysgolion Coedwig Sir Gaerfyrddin yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu hunan-barch ac yn eu galluogi i fwynhau'r byd allanol.*

4. NODAU'R Y CYNLLUN GWEITHREDU

* *Cynyddi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth cyfoethog y sir.*
* *Cynyddi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd cadw a gwella bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin.*
* *Cynyddi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth fel dangosydd ar gyfer Datblygu Cynaladwy.*
* *Cynyddi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth fel adnodd naturiol allweddol yn y sir, sef adnodd y mae'r economi, e.e. twristiaeth, amaethyddiaeth yn dibynnu arno, ac sy'n gwella bywydau'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y sir.*
* *Cynyddi ymwybyddiaeth o swyddogaeth unigolion, grwpiau cymunedol, ysgolion a busnesau o ran cadw bioamrywiaeth.*
* *Cynyddi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod ein lles nid yn unig yn faterol a bod llawer o gyfoeth anfaterol ac ysbrydol ein bywydau yn dibynnu ar y bioamrywiaeth sydd o'n cwmpas.*

5. GWEITHREDU ARFAETHEDIG I GYNYDDU YMWYBYDDIAETH GYHOEDDUS

5.1 Oddi mewn i sefydliadau sy'n bartneriaid

5.1.1 Cysylltiadau mewnol. Dylai'r holl bartner-sefydliadau anelu at gynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ymhlith eu staff trwy gyfrwng seminarau, hyfforddiant a chylchlythyron mewnol. (GWEITHREDU GAN: Pawb)

5.1.2 Dylai'r holl bartneriaid anelu at arddangos arferion gorau ar gyfer bioamrywiaeth, yn nhermau rheoli cynefinoedd a rhywogaethau, a hefyd o ran defnyddio adnoddau naturiol. (GWEITHREDU GAN: Pawb)

5.2 Ar gyfer y cyhoedd

5.2.1 Erthyglau newyddion rheolaidd. Ar y cyd â'r wasg leol, cyhoeddir erthyglau yn rheolaidd, a bydd y rhain yn ymwneud â rhywogaethau a chynefinoedd lleol a gafodd eu targedu neu faterion cyfredol yn ymwneud â bioamrywiaeth. Byddai'r erthyglau hyn yn anelu at roi gwybod i bobl am yr amrywiaeth gyfoethog o fywyd gwyllt a chynefinoedd yn Sir Gaerfyrddin. Anogir partneriaid i hyrwyddo bioamrywiaeth mewn unrhyw gyhoeddiadau a gynhyrchir ganddynt. (GWEITHREDU GAN: Pawb)

5.2.2 Taflenni a dalen-nodau. Fel y bo'n briodol, cynhyrchir taflenni visits and education in the county.

* Trinity College, Carmarthen offers environmental degrees of which biodiversity is an integral part and an MSc in Environmental Education to which partner organisations have contributed to in terms of teaching expertise.
* The National Botanic Garden hosts courses run by Swansea University on Plant Biodiversity and Systematics. Credits count towards certificates of Higher Education.
* Fforestwr raise awareness of sustainable woodland management using renewable woodland resources for the teaching of charcoal making, willow work, etc.
* Carmarthenshire Forest Schools are initiating opportunities for young people to develop their own self-esteem and enjoyment of the outside world.

4. ACTION PLAN OBJECTIVES

* To raise public awareness of the county's rich biodiversity.
* To raise public awareness of the importance of conserving and enhancing biodiversity in Carmarthenshire.
* To raise the awareness of biodiversity as an indicator for sustainable development.
* To raise awareness of biodiversity as a key natural resource in the county, on which the economy, e.g. tourism, agriculture relies, and which enhances the lives of those who live and work in the county.
* To raise awareness of the role of individuals, community groups, schools and businesses in conserving biodiversity.
* To raise awareness that our well being is not simply a material one and that much of the non-material and spiritual richness of our lives depends on the biodiversity we find around us.

5. PROPROSED ACTION TO RAISE PUBLIC AWARENESS

5.1 Within partner organisations

5.1.1 Internal communications. All partner organisations should aim to raise awareness of biodiversity amongst their staff through seminars, training and internal newsletters. (ACTION: ALL)

5.1.2 All partners should aim to demonstrate best practice for biodiversity, both in terms of habitats and species management, and also in the use of natural resources. (ACTION: ALL)

5.2 For the general public

5.2.1 Regular news articles. In association with the local press regular articles will be published featuring target local species and habitats or current issues concerning biodiversity. These articles would aim to inform people of the rich variety of wildlife and habitats contained within Carmarthenshire. Partners will be encouraged to promote biodiversity in any publications they produce. (ACTION: ALL)

5.2.2 Leaflets and bookmarks. As appropriate leaflets will be produced for distribution to the public on biodiversity-related issues, raising awareness of the species and habitats in the county that we need to protect. Bookmarks focusing on habitats will be distributed through libraries and bookshops. (ACTION: CCC)

5.2.3 Events. The Biodiversity Action Plan will be promoted, using display boards and appropriate literature at events across the county. Partners will be asked to assist with this. (ACTION: ALL)

5.2.4 Targeted talks and presentations. In addition to talks to interested wildlife/conservation groups, talks could be targeted at non-wildlife community groups, e.g. Community Councils, Women's Institute, Merched y Wawr, youth groups. Programmes of talks could be arranged with education centres and prepared slide shows made available to partners to use. (ACTION: ALL)

5.2.5 Web site. The possibility of improving the Local Authority's

i'w dosbarthu ymhlith y cyhoedd. Bydd y rhain yn ymwneud â bioamrywiaeth, gan gynyddu ymwybyddiaeth o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd yn y sir y mae angen i ni eu gwarchod. Caiff dalen-nodau sy'n rhoi sylw i gynefinoedd eu dosbarthu trwy lyfrgelloedd a siopau llyfrau. (GWEITHREDU GAN: CSC [Cyngor Sir Caerfyrddin])

5.2.3 Digwyddiadau. Hyrwyddir y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth trwy ddefnyddio byrddau arddangos a deunydd darllen priodol mewn digwyddiadau ledled y sir. Gofynnir i bartneriaid am eu cymorth. (GWEITHREDU GAN: Pawb)

5.2.4 Anerchiadau a chyflwyniadau wedi'u targedu. Yn ogystal ag annerch grwpiau bywyd gwyllt/cadwraeth, gellid targedu grwpiau nad ydynt yn ymwneud â bywyd gwyllt, e.e. Cynghorau Cymuned, Sefydliad y Merched, Merched y Wawr, grwpiau ieuenctid. Gellid trefnu rhaglen o anerchiadau gyda chanolfannau addysg a gellid paratoi cyflwyniadau sleidiau at ddefnydd partneriaid. (GWEITHREDU GAN: Pawb)

5.2.5 Gwefan. Bydd y posibilrwydd o wella gwefan bioamrywiaeth yr Awdurdod Lleol yn cael ei ystyried. Y nod fydd ei gwneud yn fwy hygrych a chynnwys newyddion am weithredu'r CGBLl, a rhestru digwyddiadau perthnasol. Pe bai'n llwyddo, byddai angen diweddaru tudalen o'r fath yn rheolaidd, a dylid ystyried cysylltu tudalennau gwe partneriaid ag adran fioamrywiaeth gwefan CSC. (GWEITHREDU GAN: CSC)

5.2.6 Wythnos Bioamrywiaeth Cymru. Mae hon yn wythnos genedlaethol o ddigwyddiadau wedi'u cydlynu gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Y nod, trwy gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau, yw cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch bioamrywiaeth yng Nghymru.

5.3 Bioamrywiaeth a Thirfeddianwyr

5.3.1 Cynyddu ymwybyddiaeth o gynlluniau amaeth-amgylchedd megis Tir Gofal, a manteision y cynlluniau hyn i ffermwyr a bywyd gwyllt. (GWEITHREDU GAN: CCGC [Cyngor Cefn Gwlad Cymru], CSC, UAC [Undeb Amaethwyr Cymru], UCFf [Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr], CYT)

5.3.2 Gweithio gyda grwpiau o dirfeddianwyr megis clybiau Ffermwyr Ifainc er mwyn darganfod cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a gweithredu yn unol â'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. (GWEITHREDU GAN: Pawb)

5.3.3 Gweithio gyda phartneriaid sydd yn cynrychioli tirfeddianwyr i gynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth trwy eu cyhoeddiadau, a'u digwyddiadau. (GWEITHREDU GAN: Pawb)

5.4 Ymwybyddiaeth gyhoeddus a busnesau lleol

5.4.1 Hyrwyddwyr o fyd busnes. Gofynnir i fusnesau cenedlaethol a lleol gyfranogi trwy 'hyrwyddo' rhywogaeth neu gynefin yn lleol. Yn ogystal â darparu arian, fe allai nawdd o'r fath ddarparu cyfarpar, gwasanaethau, pobl ac arbenigedd er mwyn, er enghraifft, helpu i fonitro rhywogaeth, adfer cynefin neu noddi taflen. Mae gan rai rhywogaethau blaenoriaethol 'hyrwyddwyr' eisoes o fyd busnes yn eu cefnogi (e.e. mae Tesco yn cefnogi'r Ehedydd) a gellid cysylltu â'r cwmni ynghylch cefnogi'r rhywogaeth yn Sir Gaerfyrddin. (GWEITHREDU GAN: CSC)

5.5 Addysg

5.5.1 Hyfforddi athrawon. Fel rhan o ddyddiau hyfforddiant-mewn-swydd i athrawon, rhoddir hyfforddiant i'w cyflwyno i'r syniad o fioamrywiaeth yn yr ystafell ddosbarth ac er mwyn darparu gwybodaeth am gynefinoedd a rhywogaethau lleol. (GWEITHREDU GAN: CSC, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (GFGC), YG, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (CFGA), Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir (YAG), Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru (YNDGC)

5.5.2 Ardaloedd Bywyd Gwyllt Mewn Ysgolion. Trwy'r cynllun Eco-ysgolion, gweithio gydag ysgolion i ddatblygu gerddi bywyd gwyllt ac ymwybyddiaeth o gynefinoedd lleol sy'n bwysig i fioamrywiaeth. (GWEITHREDU GAN: CSC, YNDGC)

biodiversity web page will be investigated. The aim being to make it more easily accessible and to include news on implementation of the LBAP, and listing of relevant events. If successful such a page would need to be updated regularly. Investigate the possibility of linking partner's web pages to the biodiversity section of the CCC web site. (ACTION: CCC)

5.2.6 Wales Biodiversity Week. This is a national week of events co-ordinated by the Wales Biodiversity Partnership, which through a range of events and activities, aims to raise awareness about biodiversity in Wales.

5.3 Biodiversity and Landowners

5.3.1 Raise awareness of agri-environment schemes such as Tir Gofal, and the advantages these schemes offer for farmers and wildlife. (ACTION: CCW, CCC, FUW, NFU, CLBA)

5.3.2 Work with landowner groups such as Young Farmers clubs to identify opportunities for raising awareness of biodiversity and carry out actions identified in the LBAP. (ACTION: ALL)

5.3.3 Work with partners representing landowners to raise awareness of biodiversity through their publications, and events. (ACTION: ALL)

5.4 Public awareness and local businesses

5.4.1 Champions from business. National and local businesses will be approached to encourage their involvement in 'championing' locally a species or habitat. As well as money this sponsorship could provide equipment, services, people and expertise to help in, for example, the monitoring of a species, the restoration of a habitat or the sponsorship of a leaflet. Some priority species already have 'champions' from business supporting them (e.g. Tesco support Skylarks) and approaches could be made to them about support of the species in Carmarthenshire. (ACTION: CCC)

5.5 Education

5.5.1 Training for Teachers. As part of teacher inset days training will be given, introducing the concept of biodiversity in the classroom and providing information about local habitats and species. (ACTION: CCC, NBGW, NT, RSPB, WWT, WTSWW)

5.5.2 School Wildlife Areas. Through the Eco School scheme work with schools to develop wildlife gardens and awareness of local habitats that are important for biodiversity. (ACTION: CCC, NBGW, WTSWW)

5.5.3 Sixth Form Seminar. Continue to organise and develop the seminar on biodiversity for sixth-form pupils in Carmarthenshire. (ACTION: CCC)

5.5.4 Re-establish the LBAP Partnership Education/Public Awareness Subcommittee to agree on, develop and share best practice for the biodiversity education and interpretation (ACTION: ALL)

5.6 Interpretation of Biodiversity

The long-term aim of the LBAP across the county is to provide interpretation of all the habitats and species of UK or local importance through the partnership, working together to ensure consistency of interpretive material.

5.6.1 The Partnership will aim to develop and integrated approach to the interpretation of biodiversity across the county. The main principles of interpretation will be use to:

Relate biodiversity to the general public,

Reveal its importance to us,

Provoke a response - such as an increase in awareness or a change in behaviour that will benefit biodiversity.

(ACTION: ALL)

5.5.3. Seminar Chweched Dosbarth. Parhau i drefnu a datblygu'r seminar ar fioamrywiaeth ar gyfer disgyblion chweched dosbarth yn Sir Gaerfyrddin. (GWEITHREDU GAN: CSC)
5.5.4 Ailsefydlu Is-bwyllgor Addysg/Ymwybyddiaeth y Bartneriaeth CGBLI er mwyn cytuno ar yr arferion gorau o ran dehongli a chyflwyno bioamrywiaeth, ac er mwyn datblygu a lledaenu'r arferion hynny. (GWEITHREDU GAN: Pawb)

5.6 Dehongli Bioamrywiaeth

Nod hirdymor y CGBLl ledled y sir yw dehongli, a hynny drwy'r Bartneriaeth, yr holl gynefinoedd a rhywogaethau sydd o bwysigrwydd lleol a chenedlaethol, gan gydweithio er mwyn sicrhau cysondeb yn y deunydd deongliadol.
5.6.1 Bydd y Bartneriaeth yn anelu at ddatblygu dull integredig o ddehongli bioamrywiaeth ledled y sir. Prif egwyddorion y dehongli fydd:
Cysylltu bioamrywiaeth â'r cyhoedd,
Datgelu ei bwysigrwydd i ni,
Ysgogi ymateb - megis gwell ymwybyddiaeth neu newid mewn ymddygiad a fydd o fantais i fioamrywiaeth.
(GWEITHREDU GAN: Pawb)